Archwilio Cymru
Audit Wales

A yw ystadau'r GIG yn addas ar gyfer y diben?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	7
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	32
Atodiadau	35
1 Ynglŷn â'n gwaith	36
2 Maint a lleoliad ystâd y Bwrdd Iechyd	39
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	40
4 Ymateb y rheolwyr	43

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn rheoli ei ystâd.

Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae ystâd y GIG yng Nghymru'n darparu'r seilwaith hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ganddi rôl allweddol o ran rhoi gofal diogel o ansawdd da a gwella profiad cleifion. Fodd bynnag, mae ystâd y GIG yn amrywio'n eang o ran oedran, cyflwr a lleoliad ledled Cymru. Mae ystâd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n wael yn creu risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys materion diogelwch tân a niwed posibl i gleifion. Gall ystâd sydd wedi mynd yn hen effeithio ar berfformiad gwasanaethau, defnyddio ynni'n llai effeithlon a bod yn rhwystr i roi gofal iechyd modern hefyd.

3 Mae angen i'r GIG yng Nghymru foderneiddio ei ystâd, cyflawni gwelliannau amgylcheddol, gwella mynediad ac addasu i ddiwallu anghenion gofal iechyd modern. Ceir nifer o strategaethau a chynlluniau yn y GIG sy'n ddibynnol ar welliannau i'r ystâd. Mae'r rhain yn amrywio o flaenoriaethau strategol uniongyrchol sy'n ymwneud â buddsoddi mewn seilwaith a buddsoddi cyfalaf, i'r gofynion i leihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni.

4 Fe wnaeth y cynllun hirdymor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – Cymru Iachach – amlygu pwysigrwydd ystâd y GIG fel galluogwr allweddol ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr angen am gyfleusterau modern, cefnogi integreiddio digidol a ffocws ar effeithlonrwydd ynni ac arferion eco-gyfeillgar. Mae hyn i gyd yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae angen diweddaru strategaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd. Nid yw'n cynnwys cerrig milltir eglur, monitro rheolaidd na chynllun cyflawni a ariennir. Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle, ond cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth gan y Bwrdd a phwyllgorau. Mae trefniadau gweithrediadol yn fratiog ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ac yn cyfyngu ar ddull cyson o ymdrin â pherfformiad, cydymffurfio a risg.

6 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau i reoli buddsoddi cyfalaf. Fodd bynnag, mae cynllunio byrdymor, aliniad strategol gwan a gwybodaeth reoli wael yn lleihau sicrwydd bod cyllid yn cael ei gyfeirio at y blaenoriaethau uchaf. Mae gan yr ystâd risgiau sylweddol o ran gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Er ei bod yn fwy newydd na chyfartaledd Cymru gyfan, mae ganddi gostau cynnal a chadw uchel. Mae data asedau anghyflawn a systemau ar bapur hefyd yn cyfyngu ar brosesau penderfynu effeithiol.

7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau i ddiogelwch a chydymffurfio oherwydd cyflwr ei ystâd, yn enwedig diogelwch tân. Mae cydymffurfiaeth wedi gwella, ond mae mesurau allweddol yn dal i fod islaw cyfartaledd Cymru gyfan. Mae goruchwyliaeth fratiog, prosesau gwan i dracio camau gweithredu a defnydd cyfyngedig o adborth gan staff a chleifion yn gwneud risgiau'n anos i'w rheoli. Mae'r gweithlu ystadau'n wynebu risgiau ar ffurf swyddi gwag, heriau recriwtio, absenoldeb oherwydd salwch a gweithlu sy'n heneiddio hefyd. Mae gweithgarwch cyfyngedig i gynllunio'r gweithlu'n creu risgiau i gynaliadwyedd hirdymor.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi gwneud naw argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- diweddaru'r strategaeth ystadau;
- adrodd ar gyflawni'r strategaeth;
- cryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd ar ystadau;

- symleiddio trefniadau ystadau gweithrediadol ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig;
- cryfhau'r modd y rheolir risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau;
- gwella data ystadau;
- datblygu cynllun i ymdrin â gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cydymffurfiaeth a chamau gweithredu i ymdrin â risgiau uchel i ddiogelwch tân;
- datblygu strategaeth rhesymoli a gwaredu; a
- datblygu a gweithredu cynllun eglur ar gyfer y gweithlu ystadau.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

278	Nifer yr unedau eiddo yr oedd y Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn 2024-25.
£33.7 miliwn	Arian cyfalaf a oedd ar gael i reoli ystadau yn 2025-26 (heb gynnwys cyllid ar ddiwedd y flwyddyn).
£278 miliwn	Cost i ddileu ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg yn 2024-25, cynnydd o 8.27% ers 2022-23. Mae ôl-groniad risg-uchel yn rhoi cyfrif am £109 miliwn.
21.1%	Y ganran o'r 3,978 o faterion yr ymdriniwyd â hwy yn dilyn asesiadau diogelwch tân yn 2024 erbyn diwedd mis Medi 2025.
128	Nifer y digwyddiadau clinigol a oedd yn gysylltiedig ag ystadau yn 2024-25.
6.7%	Y gyfradd swyddi gwag yn y tîm ystadau ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 11.6%.
6.4%	Y gyfradd Absenoldeb Oherwydd Salwch ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 6.6%.

Ein canfyddiadau

Dull strategol o ymdrin ag ystadau

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau, ond nid yw'n cynnwys cerrig milltir, monitro, cynllun ariannol fforddiadwy, ac nid yw'n cyd-fynd â strategaethau allweddol

9 Fe gymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth ystadau ym mis Ionawr 2023. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2023 a 2033. Fe wnaethom adolygu'r strategaeth a chanfod ei bod yn nodi fframwaith bras ar gyfer yr ystâd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys cerrig milltir eglur, graddfeydd amser, na chynllun cyflawni.

10 Ym mis Mai 2025, fe wnaeth y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth adolygu camau i resymoli'r ystâd. Canfu fod y strategaeth ystadau'n rhy generig a gofynnodd i'r tîm ddiweddaru'r strategaeth.

11 Ar adeg ein harchwiliad ni, nid oedd y gwaith hwn wedi dechrau. Roedd y Bwrdd Iechyd yn aros am fanylion y cynllun gwasanaethau clinigol, a oedd i fod yn barod yn hydref 2026 fel rhan o'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Bydd y cynllun hwn yn helpu i adnabod anghenion o ran yr ystâd yn y dyfodol.

12 Yn gadarnhaol, mae'r strategaeth ystadau:

- yn cwmpasu'r holl ystadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys gofal sylfaenol a chymunedol;
- yn adlewyrchu dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; er nad yw'n darparu rhyw lawer o fanylion am hyn; ac

- yn adnabod cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol, er nad yw'n darparu rhyw lawer o fanylion am sut y bydd hyn yn digwydd.

13 Fodd bynnag, mae'r strategaeth:

- yn peidio â chael ei hategu gan ddata ystadau dibynadwy;
- yn peidio â chynnwys cerrig milltir, targedau, na mesurau perfformiad eglur;
- yn peidio â chyd-fynd â strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, gan nad oes gan y Bwrdd Iechyd un eto;
- yn peidio â chyd-fynd â strategaethau galluogol allweddol, gan gynnwys ei strategaethau ar gyfer gwasanaethau clinigol, y gweithlu a digidol;
- yn peidio â dangos yn glir sut y mae'n ategu blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys Cymru Iachach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a fframweithiau clinigol cenedlaethol;
- yn peidio ag adlewyrchu ymrwymiadau i gynaliadwyedd amgylcheddol, effeithlonrwydd ynni, a bioamrywiaeth yn ddigonol; ac
- yn peidio â chael ei hategu gan gynllun ariannol fforddiadwy.

14 Mae'r strategaeth yn cyfeirio at ymgysylltu â staff a grwpiau cleifion. Fodd bynnag, nid yw'n adnabod sut yr ymgysylltir â phartneriaid cymunedol.

Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ystadau

Mae gan y Bwrdd lechyd brosesau risg ac atebolrwydd yn eu lle ar gyfer ystadau. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu bratiog, goruchwyliaeth wan a chyfrifoldebau aneglur yn lleihau sicrwydd ac yn gwanhau'r modd y rheolir risg

Llinellau atebolrwydd

15 Mae'r Bwrdd lechyd wedi diffinio atebolrwydd gweithredol am ystadau yn ffurfiol. Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb ar y cyfan, ac mae'n dirprwyo cyfrifoldeb i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau.

16 Mae atebolrwydd ffurfiol am ystadau'n eglur, ond ceir dryswch ar lefel weithrediadol. Mae rhai aelodau o staff yn enwi'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol fel yr arweinydd gweithredol, sy'n anghywir. Mae hyn yn gwanhau eglurder ynghylch pwy sy'n arwain ystadau yn ymarferol.

Goruchwyliaeth gorfforaethol ar ystadau

17 Ceir goruchwyliaeth gyfyngedig ar ystadau gan y Bwrdd a phwyllgorau.

18 Ychydig o ddiweddariadau ffurfiol am ystadau y mae'r Bwrdd yn eu cael. Mae'r rhain yn gyfyngedig i warediadau cyfalaf, yr adroddiad diogelwch tân blynyddol, a diweddariadau trwy'r gofrestr risgiau corfforaethol.

19 Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau sy'n goruchwylio ystadau ar lefel y Bwrdd. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys strategaethau cyfalaf ac ystadau. Mae Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau'n mynychu'r pwyllgor. Fodd bynnag, nid yw goruchwyliaeth yn gyson. Mae'r pwyllgor yn ystyried ystadau trwy adroddiadau cynllunio ehangach yn bennaf. O ganlyniad, mae craffu'n gyfnodol ac yn lefel-uchel.

20 Mae'r pwyllgor yn dibynnu ar bapurau ar y strategaeth a diweddariadau corfforedig. Nid yw'n monitro risgiau, cydymffurfiaeth na chyflawni lle mae ystadau yn y cwestiwn fel rhan o'r drefn arferol. Nid yw'r pwyllgor wedi cael diweddariad am gyflawni'r strategaeth ystadau ers mis Ionawr 2023. Cafodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ddiweddariad ym mis Mehefin 2025, ond nid y pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am oruchwylio cynnydd. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r sicrwydd y mae'r pwyllgor sicrhau'n ei gael bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

21 Mae'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi cymorth i graffu ar gyflawni a pherfformiad ariannol mewn perthynas ag ystadau trwy ei adolygiad o adroddiadau monitro cyfalaf a'r gofrestr risgiau corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor yn cael adroddiadau ar wahân ar berfformiad ehangach o ran ystadau na materion ystadau gweithrediadol.

22 Mae gan y Bwrdd lechyd wybodaeth am waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a risgiau cysylltiedig i ddiogelwch. Fodd bynnag, nid yw'n adrodd yn rheolaidd wrth y Bwrdd na phwyllgorau ar yr wybodaeth hon. Nid yw adroddiadau'n disgrifio nac yn meintioli'r risgiau hyn yn gyson. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos deall yr effaith ar ddiogelwch cleifion, diogelwch staff a darparu gwasanaethau.

Rheoli gweithrediadol

23 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau sydd â chyfrifoldeb ar y cyfan am wasanaethau ystadau gweithrediadol. Y Pennaeth Ystadau Gweithrediadol sy'n arwain o ran rheoli gweithrediadol o ddydd i ddydd. Mae tri Rheolwr Gweithrediadau Ystadau'n cefnogi'r rôl hon ar draws y Cymunedau lechyd Integredig Dwyreiniol, Canolog a Gorllewinol. Mae gan bob ardal dimau ystadau lleol sy'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw, cydymffurfio a seilwaith.

24 Mae'r strwythur hwn yn cefnogi gwaith cyflawni, cynnal a chadw, a chydymffurfio lleol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnig golwg gorfforaethol glir ar weithgarwch ystadau. Mae gan bob Cymuned lechyd Integredig dimau ystadau a grwpiau diogelwch ar wahân. Mae'r grwpiau hyn yn goruchwylio meysydd megis tân, dŵr, ac asbestos.

25 Nid yw'r un grŵp ystadau unigol yn dwyn y gweithgarwch hwn ynghyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae grwpiau'n adnabod camau gweithredu, ond nid yw camau gweithredu'n cael eu tracio'n gyson. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod materion yn cael eu cofnodi, eu monitro a'u cau ar amser.

26 Mae trefniadau cyfredol yn canolbwyntio'n ormodol ar weithgarwch lleol Cymunedau Iechyd Integredig. Nid ydynt yn ategu penderfyniadau ynglŷn â'r ystâd ar draws y Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cyfyngu ar oruchwyliaeth strategol ar flaenoriaethau, risgiau a pherfformiad lle mae'r ystâd yn y cwestiwn. Mae hefyd yn gwanhau rheolaeth weithrediadol a sicrwydd ar gyfer y Bwrdd.

27 Ceir diffyg mewnbwn sefydliadol ehangach yn y trefniadau hefyd. Cyfyngedig yw'r ymwneud gan dimau'r gweithlu, cyllid, a digidol. O ganlyniad, nid yw trafodaethau am ystadau'n rhoi ystyriaeth gyson i effeithiau ar berfformiad, ansawdd, diogelwch a chyllid.

28 Hefyd, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio data meincnodi'n systematig. Mae hyn yn cyfyngu ar ei allu i gymharu perfformiad a goleuo penderfyniadau ynglŷn â'r ystâd.

Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd trwy sawl lefel o'i fframwaith rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, cofrestr risgiau ystadau gweithrediadol, a threfniadau rheoli risgiau lleol ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig.

30 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adnabod risgiau strategol a allai effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid gwasanaethau a buddsoddi mewn seilwaith. Fodd bynnag, nid yw'n cydnabod cyflwr yr ystâd, y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, na dirywiad ehangach y seilwaith yn benodol fel risgiau strategol. Mae hyn yn lleihau amlygrwydd yr effaith bosibl y gallai'r materion hyn ei chael ar ddiogelwch cleifion, darparu gwasanaethau, a gwydnwch sefydliadol.

31 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag ystadau'n cael ei chofnodi dan y risg 'Amgylchedd Diogel', sy'n cysylltu â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'r gofrestr yn nodi rheolaethau allweddol, camau lliniaru, arweinwyr atebol, a dyddiadau targed. Fodd bynnag, mae lefel y sicrwydd yn dal i fod yn gymedrol, ac nid yw sgôr y risg wedi lleihau'n sylweddol. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r camau gweithredu a gymerwyd wedi lleihau'r risg sylfaenol yn sylweddol eto.

32 Mae'r Bwrdd Iechyd yn goruchwylio risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae atebolrwydd ac adrodd yn fratiog a hwythau wedi'u gwasgaru ar draws nifer o bwyllgorau a grwpiau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cael un olwg gynhwysfawr ar risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau a chynnydd yn erbyn camau lliniaru.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofrestr risgiau ystadau gweithrediadol sy'n cwmpasu risgiau o ran seilwaith, cydymffurfio a pharhad busnes ar draws ei ystâd. Mae'r gofrestr hon yn cynnig golwg ar draws y sefydliad cyfan ar risgiau ystadau gweithrediadol ac mae o gymorth gyda rheoli gweithrediadol.

34 Ar lefel leol, mae'r tair Cymuned Iechyd Integredig yn adnabod ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy gofrestrau risgiau lleol, taenlenni a systemau fel DATIX. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu trwy drefniadau llywodraethu lleol. Maent hefyd yn goleuo penderfyniadau gweithrediadol a blaenoriaethau ariannu. Fodd bynnag, roedd rhai risgiau wedi'u dyblygu, wedi dyddio neu wedi'u cofnodi fel camau gweithredu yn hytrach na risgiau wedi'u diffinio'n glir.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy ystod o grwpiau diogelwch disgyblaeth-benodol sy'n cwmpasu meysydd fel diogelwch tân, dŵr, asbestos a thrydanol. Mae tystiolaeth o grwpiau ffocws yn dangos y gellir uwchgyfeirio materion trwy strwythurau iechyd a diogelwch gweithrediadol i mewn i drefniadau llywodraethu ehangach y Bwrdd Iechyd.

36 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu mecanweithiau lluosog i adnabod ac uwchgyfeirio risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau. Fodd bynnag, nid yw’r cysylltiadau rhwng rheoli risgiau strategol, corfforaethol a gweithrediadol wastad yn eglur. Nid oes un fforwm â goruchwyliaeth ar risgiau sy’n gysylltiedig ag ystadau ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig. Mae hyn yn creu trefniadau bratiog, craffu dyblyg a goruchwyliaeth anghyson ar gamau gweithredu a lleihau risgiau.

Defnyddio adnoddau ariannol i wella ystadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau cyllid cyfalaf. Fodd bynnag, mae cynllunio byrdymor, gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ac aliniad strategol cyfyngedig yn lleihau sicrwydd ynghylch buddsoddi yn yr ystâd

Proses blaenoriaethu cyllid

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull addas o ran sut y mae'n blaenoriaethu'r crofneydd cyfalaf sydd ar gael i wella ei ystâd.

38 Yn 2025-26, roedd gan y Bwrdd Iechyd £15.2 miliwn ar gael o gyfalaf dewisol a chyllid wedi'i neilltuo i ystadau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cynyddu dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf **(Arddangosyn 1)**.

Arddangosyn 1: defnydd o gyllid dewisol a chronfeydd wedi'u neilltuo ar gyfer ystadau yn 2023-24, 2024-25 a 2025-26 (£ miliwn)

Cronfa	2023-24	2024-25	2025-26
Dyraniad cyfalaf dewisol	7.3	7.2	6.6
Cyllid y Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau	4.3	3.8	–
Y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF)	–	–	8.6
CYFANSWM	**11.6**	**11.0**	**15.2**

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro misol ariannol

Nodyn: Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau i'r ystâd sy'n flaenoriaeth uchel yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfio, a gwydnwch, yw'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu. Fe ddisodlodd gyllid y Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB) yn 2025-26.

39 Yn 2025-26, cafodd y Bwrdd Iechyd £18.5 miliwn o gyllid cyfalaf Cymru gyfan ar gyfer ystadau hefyd. Roedd hyn yn ychwanegol at ei ddyraniad o'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu. Rhoddodd y cyllid gymorth i ddatblygu'r Hyb Orthopedig Rhanbarthol yn Llandudno ac i uwchraddio'r seilwaith trydanol yn Ysbyty Glan Clwyd.

40 Ar y cyfan, cafodd y Bwrdd Iechyd £33.7 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer ei ystâd. Mae hyn yn is o lawer na'r £278 miliwn y mae ei angen yn ôl yr amcangyfrif i ymdrin â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw wedi'i addasu ar gyfer risg. Mae hefyd ymhell islaw'r £239 miliwn y mae ei angen i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B ar draws yr ystâd. Mae hyn yn dangos y bwlch sylweddol rhwng y cyllid sydd ar gael a'r cyllid y mae ar yr ystâd ei angen.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio ffynonellau cyllid eraill hefyd i gefnogi gwelliannau i'r ystâd, gan gynnwys £40,303 o gronfeydd elusennol, a chyllid trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cyllid rhanbarthol wedi cefnogi cynlluniau gan gynnwys Hybiau Iechyd a Llesiant Caledfryn, Dinbych. Mae'r cynnydd gyda'r rhain yn cael ei fonitro trwy'r Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau.

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i oruchwylio buddsoddiad cyfalaf a blaenoriaethu cyllid. Mae Tîm Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf yn datblygu'r rhaglen gyfalaf ac yn dyrannu cyllid. Mae'r grŵp rheoli'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau ystadau, cyllid, caffael a digidol. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Trawsnewid a Chynllunio Strategol sy'n cadeirio'r grŵp. Mae hyn yn rhoi cymorth i ystyried fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd ac anghenion o ran seilwaith. Fodd bynnag, ar adeg ein harchwiliad ni, roedd cylch gorchwyl y grŵp yn hen ac wrthi'n cael ei adolygu, a hwnnw wedi cael ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2015.

43 Mae'r Grŵp Buddsoddi Cyfalaf yn craffu ar gynigion buddsoddi cyfalaf. Mae hefyd yn ystyried a ydynt yn cyd-fynd ag amcanion y sefydliad a gwasanaethau. Ar gyfer prosiectau ystadau, mae'r grŵp yn adolygu achosion busnes ac yn argymell cynlluniau i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

44 Ym mis Ebrill 2025, fe wnaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu trefniadau cyllid cyfalaf dewisol a chanfod bod trefniadau llywodraethu a monitro'n rhesymol. Fodd bynnag, canfu hefyd wendidau o ran sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi ac yn egluro penderfyniadau blaenoriaethu. Roedd rhai dogfennau'n hen, ac roedd prosesau cymeradwyo'n anghyson. Mae'r gwendidau hyn yn ei gwneud hi'n anos dangos bod penderfyniadau ynglŷn â chyllid yn seiliedig ar flaenoriaethau a risg sefydliadol.

45 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen gyfalaf ddwy flynedd i ategu cynllunio byrdymor. Mae'n caniatáu i gynlluniau fynd rhagddynt pan fo cyllid ar gael. Fodd bynnag, mae'r ffrâm amser fer a newidiadau mynych yn lleihau gwerth y rhaglen fel offeryn cynllunio strategol. Mae hyn yn gwanhau sicrwydd bod penderfyniadau buddsoddi'n cyd-fynd ag anghenion tymor hwy o ran yr ystâd.

46 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau a oleuwyd yn glinigol. Mae hyn yn gwanhau'r cyswllt rhwng anghenion a buddsoddi cyfalaf lle mae'r ystâd yn y cwestiwn. Daw cynlluniau y rhoddir blaenoriaeth iddynt o gynigion blynyddol gan isadrannau ac arweinwyr gwasanaethau. Nid ydynt yn seiliedig ar asesiad eglur o risg, anghenion gwasanaethau a blaenoriaethau sefydliadol. O ganlyniad, ni all y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn cyfeirio cyllid at ei risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt ac anghenion hirdymor o ran seilwaith.


Monitro a rheoli gwariant cyfalaf

47 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i fonitro a rheoli gwariant cyfalaf. Mae'r trefniadau hyn o gymorth gyda rheoli ariannol effeithiol, er nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'i gyllid dewisol ar gyfer ystadau.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant cyfalaf, cynnydd prosiectau a phwysau ariannol trwy Dîm Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad, gwariant a risgiau cynlluniau. Mae hyn yn rhoi goruchwyliaeth ar wariant cyfalaf i'r Bwrdd Iechyd ar lefel y rhaglen.

49 Fe wnaethom adolygu gwariant yn erbyn dyraniad dewisol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ystadau yn 2024-25 a 2025-26. Yn y ddwy flynedd, gwariodd lai na'i ddyraniad (15% yn 2024-25, a 12% yn 2025-26). Roedd gwariant wedi'i gydgrynhoi tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o reoli'r gyllideb mewn modd adweithiol wrth i brosiectau fynd rhagddynt ac i gyllid fod ar gael (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: gwariant dewisol cronnus misol ar yr ystâd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, ar gyfer 2024-25 a 2025-26 (canran o gyfanswm y gwariant)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro misol ariannol

50 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau i reoli llithriant yn y rhaglen. Mae'n ailddyrannu cyllid i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a lleihau tanwariant. Fodd bynnag, nid oes ganddo restr wrth gefn eglur o gynlluniau yn nhrefn blaenoriaeth. Mae hyn yn lleihau tryloywder ac yn ei gwneud hi'n anos dangos bod cyllid yn cael ei ddyrannu i'r anghenion y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt.

51 Mae'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael adroddiadau rheolaidd ar wariant cyfalaf a chyflawni'r rhaglen, fel rhan o'r adroddiad cyllid. Fodd bynnag, gall gwendidau yn y fframwaith llywodraethu ehangach fod yn cyfyngu ar graffu a sicrwydd.

Sicrhau ystâd effeithlon a chynhyrchiol

Mae ystâd y Bwrdd Iechyd dan bwysau sylweddol o ran ei chyflwr, tra bo gwybodaeth reoli wan ac ôl-groniadau o ran gwaith cynnal a chadw'n cyfyngu ar berfformiad ac effeithlonrwydd

Cyflwr yr ystâd

52 Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau sylweddol o ran ei chyflwr a'i chynnal a'i chadw.

53 O'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, mae gan y Bwrdd Iechyd ystâd fwy newydd. Cafodd cyfran lai o'i adeiladau eu codi cyn 1948, ac mae cyfran lai o'i ystâd yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn 1995. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu costau cynnal a chadw uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gost i ddileu'r ôl-groniad risg-uchel am bob metr sgwâr yn uwch nag unrhyw sefydliad iechyd arall yng Nghymru. Mae hefyd wedi cynyddu ers 2023-24. Mae cost cyrraedd safon cyflwr ffisegol B hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan **(Arddangosyn 3)**.

Arddangosyn 3: oedran a chyflwr yr ystâd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan
% o'r ystâd a adeiladwyd cyn 1948	12.8	13.5
% o'r ystâd a adeiladwyd cyn 1995	53.2	63.9
Cost i waredu ôl-groniad risg-uchel am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	297.06	164.60

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan
Cost i waredu ôl-groniad risg-uchel am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	733.04	458.43
% o'r ystâd sy'n cyrraedd safon cyflwr ffisegol B	81	83
Cost i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	651.55	538.54

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)

Nodyn: Mae sefyllfa Cymru gyfan hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

54 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, mae'r gost i ddileu'r ôl-groniad risg-uchel ar ei huchaf yn Ysbyty Bryn-y-Neuadd, sef £1,115 am bob m² o arwynebedd llawr a feddiannir. Ysbyty Brenhinol Alexandra sydd â'r gost uchaf i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B, sef £1,720 am bob m². Ar draws safleoedd y prif ysbytai, Ysbyty Gwynedd sydd â'r gost uchaf i ddileu ôl-groniad risg-uchel a chyrraedd safon cyflwr ffisegol B, sef £741 a £1,621 am bob m² yn y drefn honno.

55 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu arolwg allanol o gyflwr ystadau yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd annibynnol ynghylch cyflwr ei ystâd. Mae hefyd yn dibynnu ar asesiad o oes ddefnyddiol sy'n weddill a gynhaliwyd yn 2009. Er bod y Bwrdd Iechyd yn trafod arolwg yn y dyfodol, nid yw wedi cadarnhau cyllid nac amserlen cyflawni. Gallai dibynnu ar arolygon mewnol leihau cysondeb y data a ddefnyddir i asesu risg a phennu blaenoriaethau cyfalaf.

56 Mae data arolygon o gyflwr yn dod yn llai dibynadwy dros amser. Ers 2009, mae ystâd y Bwrdd Iechyd wedi newid oherwydd adeiladau sy'n heneiddio, gofynion cydymffurfio newydd, ac anghenion newidiol gan wasanaethau. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth nad yw'n adlewyrchu'r ystâd gyfredol mwyach.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud bod dau safle'n cynnwys adeiladau â Choncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC), sef Ysbyty Bryn-y-Neuadd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Ni ddywedodd beth oedd y costau cysylltiedig.

58 Mae gan y Bwrdd Iechyd amserlen Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol wedi'i Gynllunio. Mae data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dangos bod rhywfaint o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio'n digwydd. Fodd bynnag, mae gwariant ar waith cynnal a chadw adweithiol yn uwch o lawer. Mae hyn yn dangos dibyniaeth barhaus ar waith adweithiol, sy'n cynyddu risg ac yn lleihau gwerth am arian.

Gwybodaeth reoli gadarn

59 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth reoli i roi cymorth i reoli ei ystâd yn strategol.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofrestr asedau o fewn ei system wybodaeth GRAMMS (System Rheoli Atgyweiriadau a Gwaith Cynnal a Chadw Cyffredinol). Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio GRAMMS i amserlennu gwaith cynnal a chadw. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r sicrwydd sydd ganddo bod yr wybodaeth am asedau a ddelir yn GRAMMS yn gyflawn neu'n gyfoes. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddibynnu'n drwm ar brosesau rheoli ystadau sydd ar bapur. Nid oes ganddo system rheoli cyfleusterau gyfrifiadurol gwbl ddigidol ar gyfer gwaith y ddesg gymorth a chynnal a chadw. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn gallu cael mynediad yn rhwydd at wybodaeth amserol a dibynadwy.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno system CAFM (Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur). Fodd bynnag, nid yw wedi sicrhau cyllid eto, ac mae angen cymeradwyaeth sefydliadol i'r system o hyd. Mae gwybodaeth y Bwrdd Iechyd am ddefnydd o'r ystâd yn anghyson a bratiog. Mae rhai meysydd yn asesu'r defnydd o le, ond nid oes dull sefydliad cyfan o gasglu'r data yma, ei ddadansoddi, nac adrodd arno. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i adnabod lle nas defnyddir ddigon a gwneud penderfyniadau gwybodus am resymoli.

62 Mae nifer o bwyllgorau a grwpiau llywodraethu'n goruchwylio perfformiad yr ystâd. Mae'r grwpiau hyn yn canolbwyntio'n fwy ar fuddsoddi cyfalaf a risg nag ar berfformiad, cynhyrchiant a materion y gweithlu. O ganlyniad, nid oes gan y Bwrdd olwg eglur, gydgysylltiedig ar ba mor dda y rheolir yr ystâd na sut y gellid ei gwella.

Cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd i'r eithaf

63 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu cyfyngedig i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

64 O'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn perfformio cystal ar addasrwydd swyddogaethol a pherfformiad ynni. Mae'n perfformio'n well ar ddefnydd o le yr adroddwyd arno. Fodd bynnag, mae sicrwydd cyfyngedig ynghylch data ar ddefnydd o le'n golygu y dylid trin y gymhariaeth hon â phwyll (**Arddangosyn 4**).

Arddangosyn 4: perfformiad yr ystâd o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan
% o'r ystâd sy'n addas yn swyddogaethol	80	84
% defnydd o le	95	92
perfformiad ynni (cilowatiau (kw))	384	367

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Nodyn: Mae sefyllfa Cymru gyfan hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

65 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Bryn-y-Neuadd sydd â'r gyfran uchaf o le nad yw'n addas yn swyddogaethol, ar 70%. Y safle hwn hefyd sydd â'r lefel uchaf o le nas defnyddir ddigon, ar 60%. O'i gymharu, nid yw 52% o'r ystâd yn Ysbyty Abergele'n addas yn swyddogaethol.

66 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth gwaredu ystadau ffurfiol. Mae'n datblygu gwaith ar resymoli'r ystâd, ond mae hwn yn dal i fod ar ffurf fersiwn ddrafft. Nid yw'n rhan o fframwaith strategol eglur eto.

67 Heb ddull eglur o ymdrin â gwarediadau, gall y Bwrdd Iechyd golli cyfleoedd i ryddhau cyfalaf a'i ailfuddsoddi mewn cynlluniau y rhoddir blaenoriaeth uwch iddynt. Mae hyn yn gwneud blaenoriaethu cyfalaf yn fwy adweithiol ac yn cyfyngu ar sicrwydd bod penderfyniadau buddsoddi'n cael eu hoptimeiddio ar draws yr ystâd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw gyfamodau sy'n effeithio ar sut y gall ddefnyddio ei adeiladau.

68 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai gwelliannau wedi'u targedu i'w ystâd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni megis goleuadau deuod allyrru golau (LED) ac amnewid boeleri.

69 Fodd bynnag, mae gan gyfran lai o'r lle sydd gan y Bwrdd Iechyd oleuadau LED na chyfartaledd Cymru gyfan. 22.9% yw'r gyfran, o'i gymharu â 45.4% ledled Cymru. Yn gadarnhaol, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw foeleri nwy sy'n hŷn na 10 mlwydd oed. Hwn yw'r unig un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru sydd yn y sefyllfa hon.

70 Mae cynnydd ehangach o ran gwella defnydd o le, addasrwydd swyddogaethol ac effeithlonrwydd gweithrediadol yn gyfyngedig. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwireddu cyfleoedd i optimeiddio lle yn llawn trwy lesio neu resymoli eto. Mae hefyd yn gwneud defnydd cyfyngedig o dechnoleg i wella effeithlonrwydd. O ganlyniad, mae'r ystâd yn dal i gyfyngu ar ddarparu gwasanaethau ac effeithlonrwydd sefydliadol.

Cefnogi ansawdd gofal

Mae goruchwyliaeth wan ar risgiau i ddiogelwch ystadau a heriau cydymffurfio parhaus yn cyfyngu ar sicrwydd bod yr ystâd yn ategu gofal diogel ac effeithiol

Lleihau i'r eithaf y risg i ofal cleifion

71 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau gwan ar gyfer rheoli a lleihau risgiau i ddiogelwch sy'n deillio o gyflwr ei ystâd. Mae'r risgiau hyn yn effeithio ar gleifion a staff.

72 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu risgiau a digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch ystadau trwy nifer o grwpiau ac adroddiadau gweithrediadol. Fodd bynnag, bratiog yw'r oruchwyliaeth. Nid oes un llwybr adrodd sy'n dwyn ynghyd ddigwyddiadau, risgiau, materion cydymffurfio a chamau gweithredu ar lefel gorfforaethol na gweithrediadol. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod pryderon ynghylch diogelwch ystadau'n cael eu hadnabod, eu huwchgyfeirio ac yn cael sylw yn gyson. Mae hefyd yn cyfyngu ar ddysgu gwersi ar draws y sefydliad.

73 Mae data ar ddigwyddiadau'n dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall ers 2022. Fe gododd digwyddiadau yr hysbyswyd yn eu cylch o 41 yn 2022-23 i 128 yn 2024-25, ond nid yw'r data'n egluro pam fod hyn wedi digwydd. Gall y cynnydd fod yn adlewyrchiad o gyflyrau dirywiol yr ystâd, arferion hysbysu gwell, ymwybyddiaeth well ymhlith staff, neu gymysgedd o'r ffactorau hyn.

74 Nid yw risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd yn cael sylw penodol yn rhaglen waith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae'r pwyllgor yn dibynnu ar adroddiadau anuniongyrchol trwy adroddiadau risg ac ansawdd corfforaethol. Mae hyn yn lleihau amlygrwydd risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â'r seilwaith ac yn cyfyngu ar graffu a herio pwrpasol.

75 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n systematig i gofnodi adborth staff a chleifion am gyflwr yr ystâd, ei ddadansoddi nac adrodd arno. Mae hyn yn cyfyngu ar ei ddealltwriaeth am sut y mae materion o ran yr ystâd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau, profiad cleifion a llesiant staff. Mae hefyd yn gwanhau'r dystiolaeth a ddefnyddir i flaenoriaethu gweithgarwch buddsoddi a gwella.

76 Heb adborth strwythuredig, cyfyngedig yw sicrwydd y Bwrdd Iechyd bod profiad defnyddwyr yn goleuo prosesau penderfynu neu'n helpu i wella'r ystâd. Mae hyn yn gwanhau ei allu i ddangos ei fod yn ymateb i bryderon a godir gan staff a chleifion.

Sicrhau cydymffurfiaeth

77 Mae gan y Bwrdd Iechyd wendidau o ran y ffordd y mae'n rheoli cydymffurfiaeth â gofynion statudol a diogelwch ar draws ei ystâd.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei berfformiad o ran cydymffurfio statudol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n dal i fod islaw cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer mesurau allweddol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â gofynion statudol ym maes iechyd a diogelwch ac ym maes diogelwch tân **(Arddangosyn 5)**.

Arddangosyn 5: arwynebedd llawr a feddiannir sy'n ateb gofynion statudol a diogelwch, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25 (canran)

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan
% yr arwynebedd llawer a feddiannir sy'n ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol	82	87
% yr arwynebedd llawr sy'n ateb gofynion diogelwch tân statudol	76	84

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Nodyn: Mae sefyllfa Cymru gyfan hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

79 Ysbyty Abergele sydd â'r lefel isaf o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol, ar 15% yn unig. Mae'n un o dri ysbyty yn unig yng Nghymru, a'r unig safle ar draws ystâd y Bwrdd Iechyd, sydd islaw 50%. Mae cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch tân yn isel yn Ysbyty Abergele hefyd ar 50%. Ysbyty Brenhinol Alexandra ac Ysbyty Gwynedd sydd â'r lefel gydymffurfio ail isaf ar draws y Bwrdd Iechyd ar 60%.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod 90% o'r asesiadau risg tân gofynnol wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wella'r modd y rheolir diogelwch tân ac i leihau risg.

81 Yn 2024-25, roedd 3,138 o gamau gweithredu yn dal heb eu rhoi ar waith o asesiadau risg tân. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod ganddo ddiffyg capasiti ac adnoddau i reoli cymaint â hyn o gamau gweithredu. Mae hyn yn lleihau sicrwydd ei fod yn rheoli risgiau tân yn effeithiol.

82 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw hysbysiadau gorfodaeth tân ffurfiol. Fodd bynnag, mae wedi cael pedwar hysbysiad anffurfiol gan y gwasanaeth tân ers 2025. Mae'r rhain yn ymwneud â systemau larwm tân, drysau tân, a phrofi trydanol. Er nad hysbysiadau gorfodaeth ffurfiol mohonynt, maent yn dangos bylchau mewn rheolaethau diogelwch tân neu oedi cyn datrys materion.

83 Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi diogelwch dŵr ac mae'n cynnal asesiadau risg rheolaidd. Yn 2024-25, fe gwblhaodd 278 o 365 o asesiadau gofynnol. Fe ymdriniodd hefyd â 79% o'r materion a adnabuwyd, neu 1,815 o 2,311. Mae hyn yn dangos gweithredu parhaus i reoli risgiau i ddiogelwch dŵr. Fodd bynnag, mae asesiadau a chamau cywiro sydd heb eu cwblhau'n cyfyngu ar sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli'r risgiau hyn ar draws yr ystâd.

84 Mae'r Bwrdd Iechyd yn targedu cyllid tuag at risgiau i gydymffurfio statudol ac mae wedi sicrhau adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigon i ymdrin â gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a risgiau i gydymffurfio ar draws yr ystâd.


85 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro cydymffurfiaeth ar draws ei ystâd ac mae wedi gwella perfformiad mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae ansawdd gwael y data, gwybodaeth wan am asedau ac integreiddio cyfyngedig rhwng systemau'n ei gwneud hi'n anos adnabod risgiau, hysbysu yn eu cylch a'u rheoli mewn modd cyson.

Rheoli gweithlu'r ystâd

Mae'r gweithlu ystadau'n wynebu risgiau o ran swyddi gwag, absenoldeb oherwydd salwch, a gweithlu sy'n heneiddio. Mae'r rhain yn cyfyngu ar gapasiti, yn cynyddu costau, ac yn effeithio ar gynaliadwyedd

86 Mae gan y Bwrdd lechyd dîm ystadau ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru gyfan. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd ganddo 0.61 o staff cyfwerth ag amser cyflawn am bob 1,000 m² o arwynebedd llawr a feddiannir. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 0.49 **(Arddangosyn 6)**.

Arddangosyn 6: maint y swyddogaeth ystadau am bob 1,000 m² o arwynebedd llawr a feddiannir, fesul corff yn y GIG ar 31 Mawrth 2025 (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r GIG

87 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod ganddo lefel gymedrol o swyddi gwag yn ei dîm ystadau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, 6.7% oedd y gyfradd swyddi gwag, neu 16.4 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Roedd hyn islaw'r lefel Cymru gyfan o 11.6%. Fe ostyngodd y swyddi gwag i 14.74 o staff cyfwerth ag amser cyflawn erbyn mis Medi 2025. Mae cyfyngiadau ar recriwtio wedi cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i lenwi swyddi. Mae recriwtio staff ystadau â sgiliau priodol hefyd yn anodd am nad yw'r Bwrdd Iechyd wastad yn gallu talu'r un cyfraddau cyflog â'r sector preifat.

88 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i gyrff y GIG roi'r gorau i ddefnyddio staff asiantaeth mewn ystadau erbyn 30 Medi 2025. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyrraedd y targed hwn.

89 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio contractwyr allanol i gefnogi ei weithlu mewnol. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd yn defnyddio darparwyr trydydd parti ar gyfer gwasanaethau cydymffurfio statudol allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys diogelwch dŵr, diogelwch trydanol, diogelwch tân a rheoli asbestos. Yn 2025-26, £93,530 oedd cyfanswm y gwariant blynyddol ar y gwasanaethau hyn.

90 Ar ddiwedd mis Medi 2025, nododd y Bwrdd Iechyd gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o 6.4%. Mae hyn ychydig islaw cyfartaledd Cymru gyfan o 6.6%, ond yn rhoi rhagor o bwysau ar gapasiti.

91 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun eglur ar gyfer gweithlu ei swyddogaeth ystadau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 24.9% o'r staff ystadau dros 60 oed. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan o 25.4%. Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio prentisiaethau i feithrin capasiti at y dyfodol. Roedd ganddo ddau brentis yn eu swyddi ac un swydd wag ar yr adeg honno.

92 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio a allai gweithio mewn partneriaeth helpu i ymdrin â heriau cyfredol ac yn y dyfodol mewn perthynas â'r gweithlu ystadau.

93 Mae’r Bwrdd Iechyd yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gyfer staff ystadau. Ym mis Mawrth 2025, 92% oedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol, yn erbyn targed o 85%. Roedd y prif fylchau ym maes llywodraethu gwybodaeth, diogelwch tân a chodi a chario.

Argymhellion

94 Rydym wedi gwneud naw argymhelliad oherwydd ein gwaith.

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r strategaeth ystadau unwaith y mae wedi datblygu ei gynllun clinigol, gan sicrhau bod yr ystâd yn rhoi cymorth i gyflawni'r cynllun hwnnw. Dylai'r strategaeth wedi'i diweddaru fod yn seiliedig ar ddata cadarn a chynnwys manylion eglur o ran cerrig milltir ar gyfer cyflawni, mesurau perfformiad, a thybiaethau ynglŷn â chyllid (**paragraffau 11-13**).

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol ar gyflawni'r strategaeth ystadau wedi'i diweddaru. Dylai adroddiadau gwmpasu cynnydd, risgiau, manteision, fforddiadwyedd a chyd-fynd â'r cynllun clinigol **(paragraff 21)**.

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau llywodraethu ac adrodd ar gyfer ystadau i eglurhau atebolrwydd a gwella goruchwyliaeth ar gyflwr yr ystâd, gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cydymffurfio statudol, perfformiad, blaenoriaethau a risgiau **(paragraffau 17-23)**.

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd symleiddio trefniadau llywodraethu ystadau ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig. Dylai hyn leihau achosion o ddyblygu, gwella'r modd y mae camau gweithredu'n cael eu tracio, a chreu un fforwm i oruchwylio risgiau, cydymffurfio a pherfformiad lle mae ystadau gweithrediadol yn y cwestiwn **(paragraffau 24-28)**.

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r modd y rheolir risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy gysylltu risgiau lleol, gweithrediadol, corfforaethol a strategol. Dylai eglurhau perchnogaeth, dileu achosion o ddyblygu, gwella'r modd y mae camau gweithredu'n cael eu tracio a nodi a yw camau lliniaru'n lleihau risg **(paragraffau 31-37)**.

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun ac achos busnes cymeradwy ar gyfer system rheoli ystadau ddigidol. Dylai'r cynllun wella data ar asedau, eu cyflwr, eu defnydd, cydymffurfio, digwyddiadau, adborth a pherfformiad **(paragraff 62)**.

A7 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun hirdymor i ymdrin â gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, gwella cyflwr yr ystâd a chryfhau cydymffurfio statudol. Dylai'r cynllun flaenoriaethu materion risg-uchel, gan gynnwys camau gweithredu sydd heb gael eu rhoi ar waith ym maes diogelwch tân, ac adnabod opsiynau o ran cyllid **(paragraffau 54-57 ac 82-86)**.

A8 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu strategaeth rhesymoli a gwaredu ar gyfer yr ystâd. Dylai hon ddangos lle nas defnyddir ddigon neu sy'n anaddas, bod o gymorth i gynllunio gwasanaethau, rhyddhau cyfalaf lle y bo'n briodol, a chyfeirio buddsoddiad tuag at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt **(paragraffau 67-68)**.

A9 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu ystadau. Dylai gwmpasu capasiti, cynllunio ar gyfer olyniaeth, recriwtio, absenoldeb oherwydd salwch, lleihau defnydd o staff asiantaeth, cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, sgiliau digidol a gofynion o ran y gweithlu yn y dyfodol **(paragraffau 92-93)**.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Mai 2026:

- cynllunio strategol;
- trefniadau llywodraethu;
- defnyddio adnoddau ariannol;
- cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr ystâd;
- goblygiadau ar gyfer ansawdd a diogelwch; a
- rheoli'r gweithlu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar:

- brosiectau ystadau mawr a ariennir (neu a allai gael eu hariannu) trwy Raglen Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan;
- rheoli ystadau'n weithrediadol, gan gynnwys rheoli ystâd sydd ar les;
- gwasanaethau 'rheoli cyfleusterau'n feddal' megis gwasanaethau glanhau neu ddiogelwch, sydd hefyd yn allweddol i gefnogi ystâd sy'n addas ar gyfer y diben; ac
- ystadau gofal sylfaenol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan gorff y GIG ddull cynllunio eglur ar gyfer ei ystâd yn y tymor canolig a hwy?

- A oes gan gorff y GIG drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer rheoli ystadau?
- A yw corff y GIG yn defnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo ar gyfer ystadau mewn modd priodol?
- A oes gan gorff y GIG ystâd effeithlon a chynhyrchiol?
- A yw ystâd y GIG yn cefnogi ansawdd gofal a phrofiad cleifion a staff?
- A oes gan gorff y GIG drefniadau effeithiol i reoli gweithlu ei ystâd?

Meini prawf

Fe wnaethom asesu dull y Bwrdd Iechyd yn erbyn meini prawf archwilio a siapiwyd gan:

- Fframweithiau cynllunio GIG Cymru a dogfennau cynllunio perthnasol eraill gan GIG Cymru, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30;
- deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED);
- canllawiau perthnasol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG; a
- gwaith archwilio blaenorol ar reoli ystadau'r GIG.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau;
- dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a Thîm Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf;
- strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Blynyddol, y Strategaeth Ystadau, a'r Cynllun Cyfalaf;

- dogfennau rheoli risg allweddol gan gynnwys y cofrestrau risgiau strategol a gweithrediadol; a hefyd
- cofnodion ac agendâu pwyllgorau gweithrediadol perthnasol gan gynnwys y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau;
- Pennaeth Ystadau Gweithrediadol;
- Pennaeth Cyfalaf.

Fe wnaethom hefyd gynnal dau grŵp ffocws gyda'r canlynol:


- Cyfarwyddwyr y Cymunedau Iechyd Integredig Dwyreiniol, Gorllewinol a Chanolog;
- yr Arweinydd Diogelwch Tân, yr Arweinydd Iechyd a Diogelwch, yr Arweinydd ar gyfer Asbestos a'r Arweinydd Diogelwch Trydanol.

Fe wnaethom adolygu data cenedlaethol sydd ar gael o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), ffurflenni monitro ariannol misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, a data lleol a ddarparwyd i ni gan y Bwrdd Iechyd. Nid ydym wedi archwilio'r data o'r ffynonellau hyn.

2 Maint a lleoliad ystâd y Bwrdd Iechyd

Mae'r map isod yn dangos maint a lleoliad yr ôl-groniad wedi'i asesu ar gyfer risg yn y Bwrdd Iechyd yn 2024-25. Nid yw'n cynnwys safleoedd ag ôl-groniad o £1 miliwn neu lai.

Arddangosyn 7: maint a lleoliad yr ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg yn y Bwrdd Iechyd, 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Cod Ystadau Cymru 2018	Mae'n rhoi cyngor manwl ynghylch sut i reoli tir ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.
Gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni	Mesur o'r buddsoddiad y mae ei angen i adfer adeilad i safon benodedig, yn seiliedig ar asesiad risg.
Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur (CAFM)	System a ddefnyddir i reoli gwaith ystadau a chyfleusterau, gan gynnwys cofnodion asedau, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac adweithiol, gwiriadau cydymffurfio, ac adrodd.
DATIX	System electronig a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gofnodi, rheoli a dadansoddi digwyddiadau, pryderon, cwynion, a risgiau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.
Cyfalaf dewisol	Arian y gall sefydliad ei ddyrannu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.
Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	Rhaglen o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a wnaeth gefnogi gwelliannau wedi'u targedu i ystadau ar draws GIG Cymru, gan gynnwys seilwaith, datgarboneiddio a diogelwch tân. Fe'i disodlwyd gan y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) yn 2025-26.

Term	Disgrifiad
System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)	Rhaglen i Gymru gyfan a ddefnyddir i gasglu data ac adrodd am ddata ar ystadau a chyfleusterau'r GIG. Mae o gymorth i fonitro, meincnodi a gwella perfformiad ac mae'n goleuo prosesau cynllunio a phenderfynu.
Addas yn swyddogaethol	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cyrraedd safon Cyflwr B Cod Ystadau Cymru 2018.
Ôl-groniad risg uchel	Materion y mae angen gweithredu arnynt ar frys i atal methiant difrifol, sefyllfa a fydd yn tarfu'n fawr ar wasanaethau, neu risgiau i ddiogelwch a allai beri niwed neu arwain at gamau cyfreithiol.
Cymunedau Iechyd Integredig (IHCs)	Partneriaethau lleol yn y Bwrdd Iechyd sy'n dwyn ynghyd wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a chymunedol i gynllunio a darparu gofal ar gyfer eu poblogaethau.
Arwynebedd llawr a feddiannir	Cyfanswm arwynebedd llawr adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys lleoedd a berchnogir, sydd ar les, neu a ddefnyddir dan gytundebau.
Cyflwr ffisegol B	Fe'i diffinnir gan God Ystadau Cymru 2018 fel adeilad sy'n gadarn, yn ddiogel yn weithrediadol, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig.
Cynnal a chadw adweithiol	Atgyweiriadau a wneir ar ôl adnabod nam, methiant neu fater.
Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC)	Math ysgafn o goncrit a ddefnyddiwyd mewn rhai adeiladau. Gall achosi risgiau i ddiogelwch os yw'n dirywio neu os na chaiff ei reoli'n iawn.

Term	Disgrifiad
Ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg	Cost amcangyfrifedig cyweirio materion cynnal a chadw, a bwysolir yn ôl pa mor ddifrifol yw'r risg i ddiogelwch, gwasanaethau, neu gydymffurfio.
Ôl-groniad risg sylweddol	Atgyweiriadau neu amnewidiadau y mae angen gweithredu ar frys i ymdrin â hwy i osgoi pryderon ynghylch cydymffurfio neu risgiau i ddarparu gofal iechyd yn ddiogel.
Defnydd o le	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cael ei defnyddio fel a ddiffinnir yng Nghod Ystadau Cymru 2018.
Cydymffurfio statudol	Ateb gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i adeiladau, systemau diogelwch, a rheoli ystadau.
Cronfa Ystadau wedi'i Thargedu	Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfio a gwydnwch. Mae'n darparu £80 miliwn (2025-27), gyda chyrff y GIG yn cyfrannu 30%.

4 Ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r strategaeth ystadau unwaith y mae wedi datblygu ei gynllun clinigol, gan sicrhau bod yr ystâd yn rhoi cymorth i gyflawni'r cynllun hwnnw. Dylai'r strategaeth wedi'i diweddaru fod yn seiliedig ar ddata cadarn a chynnwys manylion eglur o ran cerrig milltir ar gyfer cyflawni, mesurau perfformiad, a thybiaethau ynglŷn â chyllid **(paragraffau 11-13)**.	Bydd y Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei Strategaeth Ystadau yn dilyn cwblhau'r Cynllun Clinigol i sicrhau bod yr ystâd yn ategu gofynion darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd gwaith yn cychwyn ar sefydlu llinell sylfaen gadarn o wybodaeth am yr ystâd, gan gynnwys data ar ei chyflwr, ei defnydd a gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Bydd y strategaeth wedi'i diweddaru'n	O fewn 12 mis i gymeradwyo'r Cynllun Clinigol (Mawrth 2028)	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	cael ei goleuo gan y Cynllun Clinigol a bydd yn nodi blaenoriaethau cyflawni, cerrig milltir, mesurau perfformiad a thybiaethau ynglŷn â chyllid i roi cymorth i gynllunio'r ystâd a gwneud penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas â hi dros y tymor hir.		
A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol ar gyflawni'r strategaeth ystadau wedi'i diweddaru. Dylai adroddiadau gwmpasu cynnydd, risgiau, manteision, fforddiadwyedd a	Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu fframwaith adrodd i ddarparu sicrwydd rheolaidd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol ynghylch datblygu a chyflawni'r Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru. Bydd adroddiadau'n	Diwedd Ch4 2026/27	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
chyd-fynd â'r cynllun clinigol **(paragraff 21).**	cynnwys cynnydd yn erbyn y cerrig milltir y cytunwyd arnynt, risgiau allweddol, manteision a ragwelwyd ac a wireddwyd, fforddiadwyedd, ac aliniad â'r Cynllun Clinigol. Bydd y trefniadau hyn yn ategu goruchwyliaeth effeithiol ar flaenoriaethau buddsoddi a chyflawni lle mae'r ystâd yn y cwestiwn.		
A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau llywodraethu ac adrodd ar gyfer ystadau i eglurhau atebolrwydd a gwella goruchwyliaeth ar gyflwr yr ystâd, gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-	Cytuno ar Arweinydd Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Ystadau Datblygu strwythur wedi'i ddiweddaru i ddarparu sicrwydd	Diwedd Ch4 2026/27	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
gronni, cydymffurfio statudol, perfformiad, blaenoriaethau a risgiau **(paragraffau 17-23).**	ynghylch yr ystâd 'O'r Ward i'r Bwrdd'.		Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd symleiddio trefniadau llywodraethu ystadau ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig. Dylai hyn leihau achosion o ddyblygu, gwella'r modd y mae camau gweithredu'n cael eu tracio, a chreu un fforwm i oruchwylio risgiau, cydymffurfio a pherfformiad lle mae ystadau gweithrediadol yn y cwestiwn **(paragraffau 24-28).**	Trefniadau llywodraethu diwygiedig ac addas ar gyfer y diben i gael eu cadarnhau'n annibynnol ar gyfer Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.	Diwedd Ch4 2026/27	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r modd y rheolir risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy gysylltu risgiau lleol, gweithrediadol, corfforaethol a strategol. Dylai eglurhau perchnogaeth, **dileu achosion o d**dyblygu, gwella'r modd y mae camau gweithredu'n cael eu tracio a nodi a yw camau lliniaru'n lleihau risg **(paragraffau 31-37).**	Adolygiad rheoli risg i gael ei gynnal.	Diwedd Ch4 2026/27	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun ac achos busnes cymeradwy ar gyfer system rheoli ystadau ddigidol. Dylai'r cynllun wella data ar asedau, eu cyflwr, eu defnydd, cydymffurfio,	Dim sylwebaeth yn ofynnol	Diwedd Ch4 2026/27	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
digwyddiadau, adborth a pherfformiad **(paragraph 62).**			
A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun hirdymor i ymdrin â gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, gwella cyflwr yr ystâd a chryfhau cydymffurfio statudol. Dylai'r cynllun flaenoriaethu materion risg-uchel, gan gynnwys camau gweithredu sydd heb gael eu rhoi ar waith ym maes diogelwch tân, ac adnabod opsiynau o ran cyllid **(paragraffau 54-57 and 82-86).**	Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgorffori cynllun gwella cynhwysfawr ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a chydymffurfio statudol yn y Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru. Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu rhwymedigaethau cynnal a chadw risg-uchel, camau gweithredu sydd heb eu rhoi ar waith mewn perthynas â diogelwch tân, gwelliannau i gyflwr yr ystâd, gofynion o ran	Yn cyd-fynd â chymeradwyo'r Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru (Mawrth 2028)	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	cyllid ac ystyriaethau i fforddiadwyedd.		
A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth rhesymoli a gwaredu ar gyfer yr ystâd. Dylai hon ddangos lle nas defnyddir ddigon neu sy'n anaddas, bod o gymorth i gynllunio gwasanaethau, rhyddhau cyfalaf lle y bo'n briodol, a chyfeirio buddsoddiad tuag at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt **(paragraffau 67-68).**	Ceir nifer o ragofynion sy'n gysylltiedig â hyn ac mae hyn yn gorgyffwrdd â'r strategaeth ystadau. Bydd y cyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer lle'n cael ei eglurhau fel a nodir yn A4.	Yn cyd-fynd ag A1	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A9 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu ystadau. Dylai gwmpasu capasiti, cynllunio ar gyfer olyniaeth, recriwtio, absenoldeb oherwydd salwch, lleihau defnydd o staff asiantaeth, cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, sgiliau digidol a gofynion o ran y gweithlu yn y dyfodol **(paragraffau 92-93).**	Gall hyn gael ei ategu trwy strategaethau megis cyflwyno system CAFM a chael ei ddatblygu hefyd fel rhan o'r Strategaeth Ystadau i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol.	Yn cyd-fynd ag A1	Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.